COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI 129

Amseru: Arferol

Teitl: Tendr ar gyfer y Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr ar draws yr Heddlu

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu

Crynodeb Gweithredol: Gweler cofnodion penderfyniad DLI 043, DLI 056 a DLI 1013 am wybodaeth gefndir: Cychwynnodd y cynllun peilot presennol o'r prosiect arbrofol fel Cynllun Braenaru Merched yn nalfa Hwlffordd. Ariannwyd hyn drwy drefniant IOM Cymru. Yna, ehangodd y CHTh hyn i gynllun dargyfeiriol ar gyfer pob troseddwr sy'n gymwys ar gyfer gwarediad y tu allan i'r llys. Cychwynnodd y cynllun hwn yn 2018, gyda'r nod hirdymor o ddarparu cynllun heddlu cyfan.
Dangosodd gwerthusiad cychwynnol o'r cynllun peilot ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer y rhai a oedd yn cymryd rhan, ond roedd nifer isel y cyfeiriadau'n ei gwneud hi'n anodd asesu'r effeithiolrwydd ar raddfa ehangach. Mae datblygiadau o fewn meysydd heddlu eraill, ynghyd â symudiad cenedlaethol at broses warediad tu allan i'r llys dwy haen, yn cefnogi effeithlonrwydd cynlluniau dargyfeirio troseddwyr. Bydd Heddlu Dyfed-Powys angen i gynllun o'r fath fod mewn grym er mwyn symud at yr ymagwedd waredu ddwy haen.
Mae tîm prosiect mewnol wedi ystyried y datblygiadau sydd angen a chytunwyd bod modd i'r cynllun fod yn weithredol ar draws yr heddlu erbyn Tachwedd 2019. Gan hynny, argymhellir bod y CHTh yn cytuno i Gwalia'n redeg estyniad terfynol i'r cynllun peilot presennol tan 31 Hydref 2019 am gost o £30,676 ar gyfer y cyfnod 4 mis (yn unol â'r amserlen brisio bresennol ar gyfer y cynllun peilot). Ymgymerir â phroses dendro lawn er mwyn gwobrwyo cytundeb heddlu cyfan i'r darparwr llwyddiannus, a fydd yn cychwyn ar 1 Tachwedd 2019.

Argymhelliad: Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gymeradwyo estyniad terfynol i'r cynllun peilot gyda Gwalia, hyd at 31 Hydref 2019, am gost o £30,676, a chymeradwyo cychwyn proses dendro lawn er mwyn gwobrwyo cytundeb heddlu cyfan i gyflwyno cynllun dargyfeirio troseddwyr ar gyfer gwarediadau tu allan i'r llys o 1 Tachwedd 2019.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 16/8/2019